

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Canllawiau ar Gyfer Ymgeiswyr i Gofrestru yn Warchodwr Plant

Contents

| | |
|--|----|
| • Cyflwyniad | 3 |
| • Diffiniad o warchodwr plant..... | 3 |
| • Y gofyniad i gofrestru..... | 3 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)..... | 3 |
| • Pwy yr ydym ni a'r hyn yr ydym ni'n ei wneud:..... | 3 |
| • Dim ond os bodlonir y canlynol y ceir cofrestru'n warchodwr plant: ... | 3 |
| Sut i ddod yn warchodwr plant cofrestredig | 5 |
| • 1. Ffurflenni ymgeisio i gofrestru..... | 5 |
| • 2. Y ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i gofrestru gwarchodwyr plant | 5 |
| • 3. Cwrs hyfforddi cyn-cofrestru | 5 |
| • 4. Llenwi'r ffurflen gais | 5 |
| • Mae'r ffurflen gais ar gyfer cofrestru'n warchodwr plant ar gael o wefan AGC yn AGC.org.uk..... | 5 |
| • 5. Cyflwyno eich cais | 8 |
| • 6. Cyflogi cynorthwydd..... | 8 |
| Prosesu eich cais | 9 |
| • Bydd arolygwyr yn defnyddio'r ddeddfwriaeth a restrir ar dudalen 3 i benderfynu ar eich cais..... | 9 |
| 1. Sut y bydd AGC yn ymdrin â'ch gwybodaeth..... | 9 |
| 2. Archwiliadau a gyflawnir gan AGC..... | 9 |
| 3. Beth sy'n digwydd os gwelir bod cefndir troseddol? | 9 |
| 4. Yr ymweliad â'ch cartref a'r cyfweiliad | 10 |
| 5. Cael eich cymeradwyo i warchod plant..... | 11 |
| 6. Parhau i fod wedi'ch cofrestru..... | 11 |
| 7. Sicrhau ansawdd | 12 |
| 8. Arolygiadau..... | 12 |
| Argymhellion diogelwch rhag tân ar gyfer gwarchodwyr plant | 13 |
| Ffordd o Ddianc | 13 |
| Larymau Mwg | 14 |
| Offer diffodd tân | 14 |
| Gwresogi..... | 14 |
| Coginio..... | 14 |
| Deunyddiau ysmegu | 14 |
| Dodrefn wedi'u llenwi â sbwng..... | 15 |
| Gwifrau trydan | 15 |

Cyflwyniad

Diffiniad o warchodwr plant

Rhywun sy'n gofalu am un neu fwy o blant dan 12 mlwydd oed ar safle domestig ac am dâl yw gwarchodwr plant.

Y gofyniad i gofrestru

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i unigolion sy'n dymuno bod yn warchodwyr plant gael eu cofrestru. Dyma'r eithriadau i hyn:

- os na fydd cyfanswm y cyfnod gofal mewn unrhyw ddiwrnod yn fwy na dwy awr;
- os yw'r darparwr gofal yn rhiant, yn rhiant maeth neu'n berthynas i'r plentyn;
- os darperir gofal gan rywun sydd wedi'i gyflogi'n uniongyrchol gan rieni hyd at ddau deulu (megis nani neu *au pair*) a bod y plant yn derbyn y gofal yng nghartref y naill deulu neu'r llall;
- os yw'r cyfnod pan fo'r plentyn yn derbyn gofal rhwng 6pm ar un diwrnod a 2am y diwrnod dilynol;
- os bydd cyfeillion yn gofalu am blant ei gilydd heb dderbyn tâl am y gwasanaeth (boed yn arian neu'n rhywbeth cyfwerth).

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Pwy yr ydym ni a'r hyn yr ydym ni'n ei wneud:

Yng Nghymru, mae gwasanaethau gwarchod plant a darpariaeth gofal dydd ar gyfer plant dan 12 mlwydd oed yn cael eu rheoleiddio gan AGC ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae AGC yn annog gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol trwy reoleiddio, arolygu ac adolygu gwasanaethau a thrwy ddarparu cyngor proffesiynol. Ein nod yw codi safonau, gwella ansawdd, hybu'r arferion gorau a hysbysu pobl am ofal cymdeithasol.

Dim ond os bodlonir y canlynol y ceir cofrestru'n warchodwr plant:

- mae'r ymgeisydd, a phawb arall sy'n gofalu am blant ar unrhyw safle lle y maent yn debygol o fod yn gwarchodwr plant, yn addas i ofalu am blant dan 12 mlwydd oed;
- mae'r lle a ddefnyddir i warchodwr plant yn addas ac yn ddiogel.
- nid yw'r ymgeisydd na neb arall sy'n byw neu'n gweithio yn yr un cartref wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru;
- mae gan yr ymgeisydd yr wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da;

- mae'n ymddangos i AGC bod yr holl ofynion yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 o ran cofrestru wedi'u bodloni ac yn debygol o barhau i gael eu bodloni.

Sut i ddod yn warchodwr plant cofrestredig

1. Ffurflenni ymgeisio i gofrestru

Mae ffurflenni cais ar gael ar wefan www.arolygiaethgofal.cymru.

Os na allwch ddefnyddio'r wefan, gellir cael copïau wrth ffonio rhif isod:

0300 790 0126

2. Y ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i gofrestru gwarchodwyr plant

Cyn cwblhau eich cais mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth isod:

- Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwys) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

3. Cwrs hyfforddi cyn-cofrestru

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r cwrs hyfforddi cyn-cofrestru cymeradwy yn llwyddiannus cyn cyflwyno eich cais. Bydd y cwrs hyfforddi yn eich cynorthwyo drwy'r broses ymgeisio, ac yn darparu cyswllt ychwanegol â chynrychiolydd lleol y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gwarchod Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar (PACEY) a/neu â gweithiwr datblygu Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol. Byddwch hefyd yn cael gwybodaeth am y grantiau cychwyn sydd ar gael i chi yn eich ardal.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar **0300 123 7777**.

4. Llenwi'r ffurflen gais

Mae'r ffurflen gais ar gyfer cofrestru'n warchodwr plant ar gael o wefan www.arolygiaethgofal.cymru

Os ydych yn defnyddio'r fersiwn electronig, cadwch y ffurflen ar eich cyfrifiadur a theipio'r wybodaeth berthnasol arni. Yna argraffwch y ffurflen Tystlythyr Meddygol, ei llofnodi yn y man perthnasol a gofyn i'ch meddyg teulu ddarparu'r Tystlythyr Meddygol. Yn olaf, atodwch y dogfennau ychwanegol a chyflwyno'r cyfan i AGC yn unol â'r canllawiau isod.

Mae dwy ran ar wahân i'r ffurflen gais:

- Mae **Rhan 1** yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, am y gofal y dymunwch ei ddarparu, am eich safle, ac am y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn eich cartref.

- Mae **Rhan 2** yn gofyn am wybodaeth a fydd yn dangos eich bod yn deall yr egwyddorion a'r gofynion a geir yn y rheoliadau (Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010), ac yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae copïau o'r rhain ar gael ar wefan AGC (gweler uchod).
- **Tystlythyr meddygol:** mae'n rhaid i chi ofyn i'ch meddyg teulu am dystlythyr meddygol a rhaid i'r tystlythyr gynnwys sylwadau ar eich addasrwydd corfforol a meddyliol i fod yn warchodwr plant. Dylai'r wybodaeth feddygol a ddarperir hefyd gynnwys gwybodaeth am unrhyw gyflwr sydd gennych neu am unrhyw beth yr ydych yn cael triniaeth ar ei gyfer ar hyn o bryd gan eich meddyg teulu neu unrhyw ysbyty. **Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r tystlythyr hwn gyda'ch cais.** (Gallai eich meddyg teulu godi tâl am y gwasanaeth hwn.) Os na allwch gael y tystlythyr hwn, mae'n rhaid i chi egluro pam a chyflwyno datganiad wedi'i lofnodi ynghylch eich addasrwydd corfforol a meddyliol i fod yn warchodwr plant.
- **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Mae'n rhaid ichi, unrhyw gynorthwydd rydych yn bwriadu ei gyflogi, a phob person sy'n byw ac yn gweithio yn eich cartref sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn, a fydd mewn cysylltiad â'r plant rydych yn bwriadu gofalu amdanynt, gwblhau ffurflen ddatgelu fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n rhaid i bawb sy'n cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ddatgelu pob euogfarn, rhybuddiad, rhyddhad amodol neu ganlyniad arall o ymddangos yn y llys.

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (h.y. heb fod yn hŷn na thri mis ers y dyddiad cyhoeddi) er mwyn cefnogi eich cais. Eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (mae'n rhaid i chi gyflwyno'r dystysgrif wreiddiol ac ni all fod yn hŷn na thri mis ers y dyddiad cyhoeddi).

Lle bo modd, dylech gael un trwy eich cyflogwr neu'ch corff ymbarél. Lle nad yw hyn yn bosibl, gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar **0300 7900 126** a bydd cynghorydd yn rhoi manylion i chi am sut i wneud hyn.

Pwysig: O 1 Ebrill 2018, bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd dalu cost ei gais Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

[Canllawiau i Ymgeiswyr](#) ar gael a bydd hon yn cynnig canllaw cam wrth gam i chi ar gwblhau eich ffurflen.

Eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (mae'n rhaid i chi gyflwyno'r dystysgrif wreiddiol ac ni all fod yn hŷn na thri mis ers y dyddiad cyhoeddi).

Pwysig: Fel gwarchodwr plant, mae'n rhaid ichi, unrhyw aelod o'ch cartref sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac unrhyw gynorthwydd rydych yn ei

gyflogi, adnewyddu eu tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Y ffordd orau i wneud hyn yw cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Am danysgrifiad blynyddol, bydd eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei chadw'n gyfredol, a chewch fynd â hi o swydd i swydd o fewn yr un rhan o'r gweithlu, a lle mae angen gwiriad o'r un fath ac ar yr un lefel. Dyma'r manteision i chi:

- Gall arbed amser ichi o gymharu â gorfod adnewyddu eich tystysgrif dro ar ôl tro.
- Cewch fynd â'ch tystysgrif o swydd i swydd yn yr un rhan o'r gweithlu.
- Chi fydd yn gyfrifol am eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae hefyd [rhagor o wybodaeth](#) am Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael.

- Os ydych **eisoes yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddarau**, ac mae gennych dystysgrif fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y [rhan o'r gweithlu](#) rydych yn gwneud cais ynddi, a lle mae angen gwiriad ar yr un lefel, yna bydd AGC yn derbyn eich tystysgrif. Bydd yn ofynnol i'r rhai sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddarau gyflwyno eu tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i AGC, a rhoi caniatâd i AGC gael mynediad at eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy'r Gwasanaeth Diweddarau, i gynnal gwiriad o'u statws. Bydd cyfarwyddyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wefan www.arolygiaethgofal.cymru yn dweud wrthy ch sut i wneud hyn.
- **Ffurflen i roi caniatâd i AGC gysylltu ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol.** Yn ogystal â'r archwiliad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd AGC hefyd yn cynnal archwiliad gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i gadarnhau gwybodaeth a roddwyd gennych ac i sicrhau nad ydych wedi'ch anghymhwysu rhag cofrestru. Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi hefyd gan unrhyw gynorthwy-ydd yr ydych yn bwriadu ei gyflogi, a chan bawb sy'n byw neu'n gweithio yn eich cartref, sydd dros 16 ac a fydd yn cael cyswllt â'r plant yr ydych yn bwriadu eu gwarchod. Ceir copi o'r ffurflen hon wedi'i hatodi i'ch ffurflen gais fel Atodiad 2. Cewch lungopïo'r ffurflen hon, gofyn i AGC am gopiâu ychwanegol neu ei lawrlwytho oddi ar wefan www.arolygiaethgofal.cymru
- Mae **rhestr wirio diogelwch rhag tân** wedi'i hatodi i'ch ffurflen gais fel Atodiad 3, ac mae'n rhaid i chi ei chyflwyno gyda'ch cais. Bydd y broses o lenwi'r ddogfen hon yn eich helpu i asesu'r trefniadau diogelwch rhag tân yn eich cartref ac yn helpu AGC i asesu'ch safle. Ceir mwy o gyfarwyddyd ar ddiogelwch rhag tân isod. Ar sail yr wybodaeth a roddwch, bydd AGC

yn penderfynu a ddylid ymgynghori â swyddog diogelwch rhag tân neu ofyn i un ymweld â'ch cartref.

- **Gwybodaeth am ganiatâd cynllunio.** Nid oes angen caniatâd cynllunio ar warchodwyr plant cofrestredig fel arfer, ond fe all eich Awdurdod Cynllunio Lleol osod gofynion ar eich busnes. Dylech ymgynghori â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol cyn ymgeisio i gofrestru'n warchodwr plant.
- **Gweithio fel gweithredwr busnes bwyd.** Bydd angen i chi gofrestru ag adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol. Ceir mwy o wybodaeth ynghylch cofrestru a chysylltu ag adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol (ynghyd â ffurflen gofrestru enghreifftiol) ar dudalennau "Rheoliadau a Deddfwriaeth" gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn www.food.gov.uk
- **Tystysgrif yswiriant:** mae'n rhaid i warchodwr plant cofrestredig gael dystysgrif yswiriant ar gyfer atebolrwydd posibl o ran marwolaeth, anaf, atebolrwydd cyhoeddus, difrod neu golled arall mewn cysylltiad â'i waith gwarchod plant. Nid oes angen i chi gyflwyno'r dystysgrif gyda'ch cais ond bydd ei hangen cyn y gellir cymeradwyo eich cofrestriad. Bydd yr arolygydd yn trafod hyn gyda chi yn ystod yr ymweliad â'ch cartref

5. Cyflwyno eich cais

Bydd yr un trefniadau hefyd yn berthnasol i unrhyw gynorthwy-ydd yr ydych yn bwriadu ei gyflogi ac i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn eich cartref, sydd dros 16 ac a fydd yn cael cyswllt â'r plant yr ydych yn bwriadu eu gwarchod.

Pan fyddwch wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen gais dylech ei chyflwyno i'ch swyddfa AGC ranbarthol leol (nodir y manylion uchod). Ceir rhestr gyfeirio ar ddiwedd y ffurflen i sicrhau eich bod wedi atodi'r holl wybodaeth ofynnol er mwyn i'ch cais gael ei dderbyn gan AGC.

6. Cyflogi cynorthwydd

Mae'n rhaid i chi lenwi adran 3B o'r ffurflen gais os ydych yn bwriadu cyflogi cynorthwydd. Mae'n rhaid i chi fod yn sicr eu bod yn addas i weithio gyda phlant. Rydych hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'ch cynorthwywyr.

Mae'n rhaid i chi gadw ffeil o fanylion y cynorthwydd a chofnod o'r oriau a'r dyddiadau y bydd eich cynorthwydd yn gweithio i chi.

Os byddwch yn cyflogi cynorthwydd, dylech roi gwybod i'r swyddfa Cyllid a Thollau am y trefniant.

Prosesu eich cais

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r ddeddfwriaeth a restrir ar dudalen 3 i benderfynu ar eich cais.

1. Sut y bydd AGC yn ymdrin â'ch gwybodaeth

Rydym yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol a/neu sensitif sydd gennym amdanoch yn deg ac yn gyfreithlon, a byddwn ond yn holi am wybodaeth o'r fath pan fydd ei hangen arnom er mwyn cyflawni ein rôl. Am fwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data personol, a'ch hawliau mewn perthynas â hyn, ewch i'n <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol> neu cysylltwch â ni am gopi papur.

2. Archwiliadau a gyflawnir gan AGC

Mae'n ofynnol i AGC gyflawni nifer o archwiliadau i brofi eich bod yn addas i fod yn warchodwr plant. Byddwn yn:

- cadarnhau pwy ydych chi.
- golwg eich tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wreiddiol.
- cadarnhau eich iechyd corfforol ac emosiynol.
- gofyn am ddau dystlythyr o leiaf ar eich cyfer chi, gan gynnwys un gan eich cyflogwr diwethaf; efallai y byddwn yn cysylltu â'ch canolwyr yn uniongyrchol i ddilysu'r tystlythyrau neu i ofyn am fwy o wybodaeth.
- cadarnhau eich hanes o ran gwaith ers gadael yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gyfnodau o astudio, unrhyw waith di-dâl, unrhyw gymwysterau a enillwyd ac unrhyw fylchau yn yr hanes hwn.
- cysylltu â chyn-gyflogwyr, yn ôl yr angen, i gael gwybod am y sgiliau a'r profiad perthnasol sydd gennych.
- edrych ar ein cofnodion ein hunain i weld a ydym erioed wedi gwrthod cofrestriad i chi neu wedi diddymu cofrestriad a oedd gennych mewn cysylltiad â chartref plant, gwasanaeth gwarchod plant neu ddarpariaeth gofal dydd. Gallem hefyd gynnal archwiliadau gyda rheoleiddwyr eraill.
- asesu pa mor addas yw eich datganiad o ddiben, a'ch polisïau a'ch gweithdrefnau.

3. Beth sy'n digwydd os gwelir bod cefndir troseddol?

Pan fo tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, byddwn yn cysylltu â'r unigolyn dan sylw, yn gyfrinachol, i drafod unrhyw ddatgeliadau. Yn yr achosion hyn, byddwn yn cadarnhau manylion datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda'r unigolyn. Byddwn wedyn yn ystyried yr wybodaeth a'i heffaith ar y cais. Efallai bydd y wybodaeth yn anghymwyso'r ymgeisydd rhag gwarchod plant (oni bai bod AGC yn caniatáu hepgoriad penodol), neu gallai olygu bod AGC yn ystyried caniatáu cofrestriad gydag amodau penodol a fyddai'n cyfyngu ar gyswllt unigolyn â'r plant sydd i'w gwarchod, neu gallai olygu bod y cais yn cael ei wrthod. Wrth benderfynu ar y camau i'w

cymryd, bydd AGC yn rhoi ystyriaeth i natur yr wybodaeth ei hun, a manylion llawn yr amgylchiadau perthnasol.

- Noder ei bod yn drosedd i wneud datganiad mewn cais sy'n ffug neu'n gamarweiniol, gan wybod hynny. Gallai'r cais hefyd gael ei wrthod neu ei ddiddymu'n ddiweddarach os na fydd wedi'i gwblhau yn llawn ac yn gywir.

4. Yr ymweliad â'ch cartref a'r cyfweliad

Pan fydd yr holl archwiliadau ar eich cyfer chi a phobl berthnasol eraill wedi'u cyflawni, bydd arolygydd yn cysylltu â chi i drefnu amser addas i ymweld â'ch cartref i gynnal cyfweliad ac i archwilio'r safle.

Bydd yr arolygydd yn edrych i weld a oes gennych ddigon o reolaeth dros y safle i gynnal eich gwasanaeth yno ac i sicrhau bod y plant dan eich gofal yn ddiogel y tu mewn a'r tu allan i'r safle.

I wneud hyn bydd yr arolygydd yn:

- edrych ar y dystiolaeth a roddwyd gennych yn eich cais ac yn gwrandao ar yr hyn a ddywedwch wrthym yn ystod yr archwiliad o'ch cartref, er mwyn dod i benderfyniad ynghylch eich gallu i ddeall a bodloni'r Rheoliadau ac i gynnal safonau.
- sicrhau eich bod yn deall eich cyfrifoldebau fel gwarchodwr plant cofrestredig.
- ystyried sut yr ydych yn bwriadu asesu a chyflwyno'r plant i'ch gofal, a'r gweithgareddau a'r profiadau yr ydych yn bwriadu eu darparu ar eu cyfer.
- gwerthuso sut y byddwch yn hybu ac yn darparu'n briodol ar gyfer lles y plant y byddwch yn eu gwarchod.
- ystyried sut yr ydych yn bwriadu dethol ac asesu unrhyw gynorthwyr y dymunwch eu cyflogi, a chadarnhau pa gofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw yn eu cylch a sut y byddwch yn goruchwylio'u gwaith.
- holi sut y byddwch yn rheoli, monitro a datblygu ansawdd eich gwasanaeth a sut y byddwch yn cynnwys rhieni a phlant yn y broses honno.
- cadarnhau addasrwydd y safle a'r manau awyr agored lle y bydd plant yn cael eu gwarchod, gan nodi unrhyw beryglon a sicrhau bod mesurau diogelwch addas wedi'u sefydlu.
- sicrhau bod yr adeilad, y gwasanaethau a ddarperir a'r offer a ddefnyddir yn cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd.
- cadarnhau eich bod wedi dilyn, neu wedi ymrwymo i ddilyn, y cyngor a roddir yn y canllawiau diogelwch rhag tân.
- cadarnhau bod eich trefniadau ar gyfer darparu cymorth cyntaf yn foddhaol a'ch bod wedi cynllunio'n ofalus sut y byddwch yn ymateb i argyfwng.
- ystyried sut yr ydych yn bwriadu storio'ch cofnodion yn ddiogel.

Bydd yr arolygydd yn cyfrifo faint o blant y cewch eu gwarchod ac yn cytuno ar y nifer gyda chi.

5. Cael eich cymeradwyo i warchod plant

Ar ôl i AGC dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gennych fod unrhyw faterion a nodwyd yn yr ymweliad â'r cartref wedi'u datrys, bydd eich cais yn cael ei gyflwyno i Reolwr Tîm Cofrestru a Gorfodi a/neu Ddirprwy Reolwr yn AGC er mwyn gallu penderfynu ar y cofrestriad. Os cewch eich cymeradwyo, bydd tystysgrif cofrestru'n cael ei chyflwyno i chi a chewch ddechrau gweithio fel gwarchodwr plant cofrestredig. **Pwysig: Mae'n anghyfreithlon gweithredu fel gwarchodwr plant os nad ydych chi wedi'ch cofrestru gydag AGC.**

Os bwriedir gwrthod eich cais, byddwch yn derbyn Hysbysiad o Fwriad i Wrthod Cofrestriad a bydd gennych 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau llafar neu ysgrifenedig cyn y gwneir y penderfyniad terfynol.

Os dewiswch beidio â chyflwyno gwrthwynebiadau neu os bydd AGC, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd gennych, yn penderfynu gwrthod cymeradwyo eich cofrestriad, byddwch yn derbyn Hysbysiad o Benderfyniad i Wrthod Cofrestriad. Mae'r gyfraith yn rhoi 3 mis i chi apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn hysbysiad o benderfyniad o'r fath.

6. Parhau i fod wedi'ch cofrestru

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau a nodir ar eich tystysgrif **bob amser**. Os bydd unrhyw newidiadau, er enghraifft os daw rhywun i fyw gyda chi, os byddwch yn penderfynu cyflogi cynorthwy-ydd, os ceir rhywun yn eich cartref yn euog o drosedd, neu eich bod yn dymuno newid nifer y plant y cewch eu gwarchod, mae'n rhaid i chi roi gwybod i AGC. Mae AGC wedi datblygu ffurflen hysbysu i'ch helpu i wneud hyn. Mae copïau ar gael ar wefan www.arolygiaethgofal.cymru neu'n uniongyrchol gan eich swyddfa AGC ranbarthol. Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, siaradwch ag arolygydd yn swyddfa AGC.

Pwysig: Fel gwarchodwr plant mae'n rhaid i chi, unrhyw aelod o'ch cartref sydd dros 16 oed ac unrhyw gynorthwydd rydych chi'n ei gyflogi, adnewyddu ei dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd.

Ydych chi wedi ystyried tanysgrifio i wasanaeth diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Os byddwch yn tanysgrifio'n flynyddol, bydd eich tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei diweddarau a byddwch yn gallu mynd â hi gyda chi o swydd i swydd yn yr un maes gwaith, lle mae angen gwiriad o'r un math ac ar yr un lefel. Dyma'r manteision i chi:

- Chi fydd yn gyfrifol am eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Mae'n gallu arbed amser ac arian i chi o gymharu â gorfod adnewyddu eich tystysgrif dro ar ôl tro.
- Gallwch gael gwybodaeth bellach am y gwasanaeth diweddarau drwy edrych ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

7. Sicrhau ansawdd

Bydd angen i chi sefydlu system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddwch i blant, a nodi sut yr ydych yn bwriadu gwella eich gwasanaeth bob blwyddyn. Mae'n rhaid cyflawni'r adolygiad hwn yn flynyddol a bydd yn rhaid i chi baratoi adroddiad. (Rheoliad 16)

8. Arolygiadau

Bydd yr holl arolygiadau a gynhelir gan AGC o'ch gwasanaeth gwarchod plant yn rhai dirybudd.

Argymhellion diogelwch rhag tân ar gyfer gwarchodwyr plant

Nid yw gwarchod plant mewn anheddau preifat fel arfer yn cynrychioli risg uchel i fywyd oherwydd tân, ac mae'n bwysig cadw amgylchedd cartrefol ac ansefydliadol. Mae trefniadau diogelwch rhag tân ar gyfer unrhyw fath o annedd yn fwyaf effeithiol a dibynadwy pan fyddant yn gymharol hawdd eu gweithredu a'u cynnal.

Mae'n bwysig bod gwarchodwyr plant yn paratoi cynllun sy'n amlinellu'r hyn y dylent ei wneud pe byddai tân.

Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod y safle'n ddiogel yw drwy sicrhau bod gwarchodwyr plant yn cymryd camau synhwyrol fel:

- gosod larymau mwg a darparu blanced dân.
- mabwysiadu arferion da o ran diogelwch rhag tân wrth ddefnyddio offer gwresogi a choginio.
- sicrhau bod ffordd o ddianc ar gael sy'n rhydd rhag rhwystrau.

Mae hefyd yn bwysig cadw o fewn amodau'r cofrestriad, o ran nifer y plant sy'n cael eu gwarchod, er mwyn sicrhau bod modd dianc yn ddiogel rhag tân.

Ffordd o Ddianc

Mae'r 'ffordd o ddianc' o annedd un llawr neu ddau llawr yn syml. Nid oes angen gwneud llawer mwy na sicrhau bod pob ystafell sy'n debygol o gael ei defnyddio ar gyfer gwarchod plant yn agor yn uniongyrchol i gyntedd neu risiau sy'n arwain i'r fynedfa, a bod synwryddion mwg wedi'u gosod ac yn cael eu cynnal a'u cadw.

Pan fydd islawr ac ynddo ystafell sydd i'w defnyddio ar gyfer gwarchod plant, dylid cael ffordd arall o ddianc.

Byddem yn annog gwarchodwyr i beidio â darparu cyfleusterau gwarchod plant ar loriau sy'n uwch na'r llawr cyntaf, oni bai bod y grisiau wedi'u diogelu a bod digon o synwryddion mwg wedi'u gosod. Pan fo lloriau 7.5m uwchlaw lefel y ddaear, mae'n ofynnol cael ffordd arall o ddianc. Dylai tai annedd newydd â mwy na dau llawr gydymffurfio'n awtomatig gan y byddant wedi gorfod bodloni'r safon berthnasol.

Pan fo safle'n cydymffurfio'n rhesymol ag argymhellion BS 5588: Rhan 1: 1990 – Adran 2 – Tai Anedd i Deuluoedd Unigol a/neu Adran 2 – Fflatiau a Fflatiau Deulawr – ni ddylai fod unrhyw reswm dros gyfyngu ar ba rannau o'r safle y ceir eu defnyddio ar gyfer gwarchod plant. Fodd bynnag, bydd angen mwy o oruchwylio lle y bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn mannau

mwy peryglus, fel y gegin. Nid yw ffenestri yn cael eu hystyried yn ffordd briodol o ddianc.

Larymau Mwg

Dylai larymau mwg domestig gydymffurfio â'r safon briodol, h.y. BS 5466: Rhan 1 a dylid eu gosod ym mhob man a ddefnyddir i warchod plant. Dylid sicrhau bod o leiaf un ar bob llawr. Dylid ystyried darparu synwryddion na ellir tynnu'r batri allan ohonynt. Os oes angen mwy nag un synwrydd mwg yn y safle, dylid eu cysylltu â'i gilydd fel eu bod i gyd yn canu pan fydd un ohonynt yn synhwyro mwg. Bydd angen hyn os yw maint a chynllun yr adeilad yn golygu na ellir clywed y sŵn a ddaw o un synwrydd yn ddigon clir ym mhob rhan o'r safle.

Dylid ystyried gosod system larwm tân sy'n cydymffurfio â BS5839 Rhan 6 gradd D, E neu F.

Mae'n rhaid i larymau mwg gael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr. Dylid eu profi bob wythnos.

Offer diffodd tân

Bydd angen sicrhau bod blanced dân ysgafn ar gael bob amser sy'n cydymffurfio â'r Safon Brydeinig/Ewropeaidd gyfredol.

Gwresogi

Nid ystyrir bod gwresogyddion cludadwy yn ddull gwresogi diogel ar gyfer gweithgareddau gwarchod plant, ac ni anogir eu defnyddio. Pan na ellir osgoi defnyddio gwresogydd cludadwy (e.e. os oes toriadau yn y pŵer), dylid cysylltu â'r Awdurdod Tân i gael argymhellion penodol. Pa bynnag ddull a ddewisir, dylid gosod y gwresogydd yn ei le yn gadarn a rhoi giard digonol o'i amgylch.

Dylai tanau tanwydd solet ac offer gwresogi ac eithrio rheiddiaduron dŵr poeth pwysedd isel gael eu gosod yn eu lle yn gadarn a chael giard digonol o'u hamgylch. Ni ddylai unrhyw ran o'r giard fod yn nes na 200mm at ffynhonnell y gwres neu bydd y giard yn beryglus o boeth.

Coginio

Ni ddylai plant fod yn y gegin fel arfer oni bai eu bod yn cael eu goruchwylio'n dda a'u monitro drwy'r amser. Ni ddylid gwneud unrhyw ffrïo saim dwfn pan fydd y plant yn defnyddio'r man hwn. Ni ddylid defnyddio matsys i gynnu poptai nwy (gweler deunyddiau ysmegu), a dylid defnyddio peiriannau ffrïo saim dwfn a reolir gan thermostat yn hytrach na sosbenni sglodion.

Deunyddiau ysmegu

Mae deunyddiau ysmegu yn denu sylw'r rhan fwyaf o blant ac yn gallu peri iddynt ddyngwared oedolion neu chwarae gyda thanwyr sigarêts neu fatsys.

Mae'n rhaid cadw sigaréts, tanwyr sigaréts a matsys allan o olwg a chyrraedd plant, ac mewn cwpwrdd dan glo os yn bosibl. Ni cheir ysmegu wrth warchod plant.

Dodrefn wedi'u llenwi â sbwng

Dylai'r holl ddodrefn sydd wedi'u llenwi â sbwng gydymffurfio â'r safon gyfredol a bod â label sy'n nodi eu bod yn gwrthsefyll tân. Mae sbwng heb label yn annhebygol o wrthsefyll tân, a bydd yn mynd ar dân yn rhwydd. Bydd yn rhyddhau mwg gwenwynig iawn ac yn llosgi'n gyflym. Dylid trwsio dodrefn â gorchuddion wedi'u difrodi, neu eu symud o'r manau gwarchod plant.

Gwifrau trydan

Er nad oes angen mynd mor bell â chael rhywun cymwys i archwilio system drydan y safle, dylid sicrhau nad oes unrhyw ddiffygion amlwg yn y system gwifrau trydan. Dylai socedi a switsys fod wedi'u cysylltu'n gadarn i'r wal a dylid defnyddio socedi diogel. Ni ddylid rhedeg fflecs offer trydanol o dan garpedi. Ni ddylid gorlwytho addasyddion â sawl soced. Anogir defnyddio Dyfeisiau Cerrynt Gweddilliol a dylid defnyddio'r ffiwsiau cywir ar gyfer yr offer:

- hyd at 720 wat - ffiws 3 amp
- 720 - 1200 wat - ffiws 5 amp
- 1200 - 3120 wat - ffiws 13 amp

Cofiwch mai'r brif flaenoriaeth yw gofal y plant a/neu sicrhau bod y plant yn gadael yr adeilad.

Nid yw'r cyngor hwn yn disodli gofynion awdurdodau gorfodi eraill sy'n arfer eu pwerau statudol.